Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Mercher, 13 Mehefin 2012**

Amser:
**09:00**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Polisi: Marc Wyn Jones**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8120 / 029 2089 8120
pwyllgor.CCLll@wales.gov.uk

## Agenda

**Cyfarfod preifat cyn y prif gyfarfod - (08.45 - 09.00)**

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

### 2. Ymchwiliad i Uwch Gynghrair Cymru - sesiwn dystiolaeth (09.00 - 09.40) (Tudalennau 1 - 4)

Llywodraeth Cymru
CELG(4)-15-12 - Papur 1

Huw Lewis, Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth
Jon Beynon, Y Gangen Polisi Chwaraeon
Dr Huw Jones, Prif Weithredwr, Chwaraeon Cymru

### 3. Ymchwiliad i Uwch Gynghrair Cymru - sesiwn dystiolaeth (09.40 - 10.40) (Tudalennau 5 - 7)

Cymdeithas Bêl-droed Cymru (CBDC)
CELG(4)-15-12 - Papur 2

Jonathan Ford, Prif Weithredwr, Cymdeithas Bêl-droed Cymru
Gwyn Derfel, Ysgrifennydd, Uwch Gynghrair Cymru

### 4. Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol - Bil Cyllid Llywodraeth Leol: Sesiwn dystiolaeth (10:50 - 11:30) (Tudalennau 8 - 14)

CELG(4)-15-12-papur 3

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, Carl Sargeant

## 5. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol: Eitem 6 (11:30 - 11:35)

## 6. Dull y Pwyllgor o graffu ar bapurau gwyn (11:35 - 11:50)

(Tudalennau 15 - 23)
CELG(4)-15-12-papur 4

## 7. Papurau i'w nodi

**Llythyr gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau** (Tudalennau 24 - 25)

**Rhagor o wybodaeth gan Glwb Pêl-droed Dinas Bangor - Ymchwiliad i Uwch Gynghrair Cymru** (Tudalennau 26 - 28)

## Papur 1

## Papur tystiolaeth ysgrifenedig drafft i'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth, ar gyfer ymchwiliad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i Uwch Gynghrair Cymru.

Rwy'n falch iawn o allu rhoi tystiolaeth i'r ymchwiliad i Uwch Gynghrair Bêl-droed Cymru a gynhelir gan y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol.

Mae pêl-droed yn gêm hynod o boblogaidd yng Nghymru, ac mae'n cael ei gwylio a'i chwarae gan lawer iawn o bobl. Mae'n gêm sy'n rhoi cyfle i fwynhau a chael ymarfer corff iach, ac yn ogystal â hynny, mae'n gallu dod a bri i'r genedl ac i gymunedau, gan greu ymdeimlad o falchder ynddynt. Trwy fuddsoddi mewn chwaraeon, gallwn gael effaith arbennig o gadarnhaol ar bobl ifanc mewn sawl ffordd, er enghraifft hybu iechyd da, mynd i'r afael â throseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, a'u helpu i ddatblygu amrywiaeth o sgiliau cymdeithasol a fydd o gymorth iddynt yn nes ymlaen mewn bywyd. Mae polisïau ein Rhaglen Lywodraethu'n dangos ein bod wedi ymrwymo i sicrhau eu bod yn cael y cyfle i wneud amrywiaeth o chwaraeon, a'n bod yn meithrin eu doniau er mwyn cynnal ein llwyddiant mewn chwaraeon, o'r lefel gymunedol i lefel pencampwriaeth.

Er mwyn annog pobl i gymryd rhan mewn amrywiaeth o chwaraeon ar lefel gymunedol, mae Chwaraeon Cymru yn cefnogi Cyrff Llywodraethu Chwaraeon Cenedlaethol ledled Cymru trwy fuddsoddi dros £6m eleni. Mae hynny'n cynnwys dros £800k sydd wedi'i ddyrannu i Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru. Defnyddir yr arian hwn i hyfforddi hyfforddwyr, denu mwy o bobl i gymryd rhan a meithrin doniau ein chwaraewyr ifanc galluog.

Dyma fanylion y cyllid a roddwyd i hybu pêl-droed ar lefel gymunedol dros y pum mlynedd diwethaf:

Cyllid a roddwyd gan Chwaraeon Cymru i Bêl-droed: Cyllid y Trysorlys yn unig

| | | Data | |
|---|---|---|---|
| Chwaraeon | Cyngor Chwaraeon Cymru - Blwyddyn (Dyddiad y Dyfarniad) | Nifer y Taliadau (i gyd) | Swm y Taliadau (a dalwyd) |
| PÊL-DROED | 2007/08 | 45 | 884281.48 |
| | 2008/09 | 55 | 947040.82 |
| | 2009/10 | 55 | 840492.74 |
| | 2010/11 | 37 | 1086119.7 |
| | 2011/12 | 4 | 965850 |
| Cyfanswm | | 196 | 4723784.74 |

| Cyngor Chwaraeon Cymru - Blwyddyn (Dyddiad y Dyfarniad) | Chwaraeon | Cyllideb | Nifer y Taliadau (i gyd) | Swm y Taliadau (a dalwyd) |
|---|---|---|---|---|
| 2007/08 | PÊL-DROED | Cynllun Hyfforddi | 1 | 52200 |
| | | Cymorth Datblygu'r Corff Llywodraethu Cenedlaethol | 1 | 738000 |
| | | Grantiau Rhanbarthol | 7 | 24031.98 |
| | | Sportsmatch | 36 | 70049.5 |
| | Cyfanswm | | 45 | 884,281.48 |
| | | | | |
| 2008/09 | PÊL-DROED | Cynllun Hyfforddi | 1 | 35500 |
| | | Cymorth Datblygu'r Corff Llywodraethu Cenedlaethol | 1 | 746514 |
| | | Grantiau Rhanbarthol | 29 | 60021.37 |
| | | Sportsmatch | 24 | 105005.45 |
| | Cyfanswm | | 55 | 947,040.82 |
| | | | | |
| 2009/10 | PÊL-DROED | Cynllun Hyfforddi | 1 | 25000 |
| | | Cymorth Datblygu'r Corff Llywodraethu Cenedlaethol | 1 | 735998 |
| | | Her Adfywio | 1 | 5000 |
| | | Grantiau Rhanbarthol | 3 | 3048 |
| | | Sportsmatch | 49 | 71446.74 |
| | Cyfanswm | | 55 | 840,492.74 |
| | | | | |
| 2010/11 | PÊL-DROED | Cynllun Hyfforddi | 1 | 80000 |
| | | Cymorth Datblygu'r Corff Llywodraethu Cenedlaethol | 1 | 935000 |
| | | Her Adfywio | 1 | 5000 |
| | | Grantiau Rhanbarthol | 2 | 34601 |
| | | Sportsmatch | 32 | 31518.7 |
| | Cyfanswm | | 37 | 1,086,119.70 |
| 2010/11 Cyfanswm | | | | |
| 2011/12 | PÊL-DROED | Cynllun Hyfforddi | 1 | 80000 |
| | | Cymorth Datblygu'r Corff Llywodraethu Cenedlaethol | 2 | 885000 |
| | | Sportsmatch | 1 | 850 |
| | Cyfanswm | | 4 | 965,850 |
| | | | | |
| Y Cyfanswm Terfynol | | | 196 | £4.723,784.74 |

Mae'r buddsoddiad hwn mewn pêl-droed wedi helpu Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru i:

- Gyfrannu at y gwaith o ddenu llawer mwy o bobl i gymryd rhan, gyda thros 8,000 o chwaraewyr ychwanegol wedi'u cofrestru â Chymdeithas Bêl-droed Cymru dros y ddwy flynedd diwethaf. Mae dros 1,000 ohonynt yn dod o gymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, ac mae 750 yn bobl ag anableddau. Bellach mae dros 100,000 o ddynion a bechgyn a thros 6,000 o fenywod a merched wedi cofrestru fel chwaraewyr gyda thimau, ac mae'r nifer yn tyfu bob blwyddyn.

- Helpu i recriwtio dros 6,800 o hyfforddwyr cymwysedig ychwanegol dros y pedair blynedd diwethaf.

- Galluogi Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru i roi rhaglen achredu clybiau ar waith. Mae'r rhaglen hon wedi gwella safonau clybiau pêl-droed iau, ac wedi annog hyfforddwyr i ennill y cymwysterau angenrheidiol.

- Rhoi grantiau rhanbarthol i gefnogi prosiectau pêl-droed lleol.

- Helpu i wella perfformiad y garfan genedlaethol dan 16 wrth iddi gystadlu am y Victory Shield.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn rhoi unrhyw gymorth ariannol i'r Uwch Gynghrair na'r gêm broffesiynol yng Nghymru.

Cafodd y targedau gwreiddiol, a nodir yn strategaeth Dringo'n Uwch (2005) ar gyfer timau pêl-droed rhyngwladol dynion a menywod, eu hadolygu'n dilyn yr adolygiad o Chwaraeon i'r Elît a gynhaliwyd yn 2009. Er bod lefelau perfformiad y timau cenedlaethol o bwys mawr i'r genedl, cydnabuwyd yn Strategaeth Chwaraeon Elitaidd, Chwaraeon Cymru, a gyhoeddwyd yn 2010, y bydd llwyddiant rhyngwladol yn dibynnu ar raglenni Cymdeithas Bêl-droed Cymru a'r clybiau pêl-droed proffesiynol sy'n gweithredu heb unrhyw gymorth uniongyrchol gan Chwaraeon Cymru. Mae'r targedau newydd, a nodir yn Strategaeth Chwaraeon Elitaidd, Chwaraeon Cymru, yn cefnogi uchelgais Cymdeithas Bêl-droed Cymru i wella safle Cymru yn rhestr detholion y byd FIFA a rhestr detholion UEFA, ac i wella perfformiad Cymru yng nghystadlaethau Cwpan y Byd ac ym Mhencampwriaeth Ewrop ar lefelau uwch a lefelau grwpiau oedran.

**Huw Lewis AC**
**Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth**

**Mai 2012**

[Nodyn: Cystadleuaeth i dimau o dan 16 oed sy'n cynrychioli'r pedair gwlad yw'r Victory Shield.]

**Ymchwiliad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i Uwch Gynghrair Cymru**

**Cylch gorchwyl**

- I ba raddau y mae safonau pêl-droed yn yr Uwch Gynghrair wedi datblygu yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf?

- Fformat y gystadleuaeth - edrych ar fodelau eraill posibl, fel symud y gystadleuaeth i dymor yr haf.

- Edrych ar y modd y mae chwaraewyr, hyfforddwyr a rheolwyr yn datblygu ac yn symud o'r Uwch Gynghrair i lefelau eraill o'r gêm.

- Edrych ar sut mae'r Uwch Gynghrair yn cyfrannu at y modd y mae chwaraewyr yn datblygu ac yn denu pobl i gymryd rhan ar y lefelau is, gan gynnwys hyrwyddo cyfle cyfartal.

- Statws yr Uwch Gynghrair o fewn tirlun chwaraeon Cymru a pha mor amlwg yw hi yn y cyfryngau.

- Y clybiau sy'n aelodau, eu seilwaith a'u hadnoddau.

- Sut y bydd cynllun strategol 2012 Cymdeithas Bêl-droed Cymru yn helpu i gryfhau'r Uwch Gynghrair, a sut y bydd yr Uwch Gynghrair yn cyfrannu at amcanion y cynllun strategol.

## Cyflwyniad Gwyn Derfel i'r Senedd

Maen nhw'n dweud ei bod hi'n rhan o'n traddodiad Cymreig ni bod tri phen i bob pregeth. O safbwynt UGC mae gennyf brofiad helaeth o'r Cynghrair o dri chyfeiriad gwahanol – fel cefnogwr/darlledwr/gweinyddwr.

Mae gennym gynnyrch da sy'n haeddu gwell sylw – nid fy ngeiriau i ond geiriau John Hartson.

'Rwy'n credu bod y 'Deuddeg Disglair' wedi arwain at gynnydd yn y cyffro a'r safon ac mae hynny'n cael ei adlewyrchu i ryw raddau yn y cynnydd o 26% yn lefel y torfeydd ar yr un adeg a bod canran torfeydd mwyafrif llethol gwledydd Ewrop yn disgyn.

Mae'n rhaid derbyn bod angen gwelliannau sylfaenol ar UGC er mwyn i'n Cynghrair Cenedlaethol ddatblygu ymhellach. I barhau gyda thema'r tri phen – mae angen tri gwelliant sylfaenol;

1) Safon y Meysydd
2) Nifer Torfeydd
3) Cynaladwyedd

1) Tra bod nifer o feysydd chwarae i'w canmol yn arw ( rhai ohonynt diolch i gyfraniadau ariannol sylweddol gan GBDC) – mae wyneb meysydd rhai clybiau yn dal yn annerbyniol ar adegau penodol o'r tymor.Nid yw hyn yn gymorth i wella'r safon, y cynnyrch na'r gefnogaeth.

2) Er mai'r tymor yma a'r tymor diwethaf yw'r ddau sydd wedi gweld y ganran uchaf o gefnogaeth ers sefydlu'r Cynghrair – rhaid derbyn bod angen denu mwy o wylwyr i'r gemau – yn enwedig teuluoedd. 'Rydym fel CBDC am gyflwyno canllawiau llawer mwy llym ar regi'r tymor nesaf er mwyn gosod esiampl a denu teuluoedd i'n gemau.

3) Mae cynaladwyedd yn hollbwysig i holl glybiau UGC ac i'r clybiau sy'n gobeithio esgyn i'r brif adran yn y dyfodol. Gan mai dim ond 7% o holl incwm un clwb penodol gasglwyd ar y gật y tymor hwn – mae'n rhaid i glybiau weithio'n galed iawn i greu incwm o ffynonellau eraill er mwyn cadw'r blaidd o'r drws.

   Felly safon y meysydd, nifer torfeydd a chynaladwyedd ydi tair prif broblem UGC – ond 'rwy'n credu y gall meysydd 3G/4G gyfrannu'n helaeth iawn at ateb yr holl broblemau hyn.

   Mewn byd delfrydol byddai'n well gennyf weld pob gêm yn cael eu chwarae ar faes gwair safonol – ond credaf y gall y genhedlaeth newydd o gaeau chwarae weddnewid holl glybiau UGC.

   Gallai clwb fel Bangor osod eu hadnodd newydd ym maes parcio Nantporth gan gynnig cartref i'w hacademi, lle ymarfer i'r prif dim – ac wrth gwrs byddai'n adnodd gwerthfawr i'r gymuned leol – boed hynny'n dimau merched neu griw o ffrindiau sy'n chwarae er mwyn cadw'n iach a mwynhad. Yn naturiol byddai hyn hefyd yn cynyddu'r niferoedd sy'n chwarae'r gamp.

Mae gofynion ac anghenion clybiau fel Prestatyn, Y Drenewydd a'r Bala yn wahanol iawn i rai Bangor. Byddai 3G/4G yn cael ei ddefnyddio fel y prif faes chwarae yn y clybiau hyn. Eu hagwedd yw "os yw maes o'r fath yn ddigon da i dîm rhyngwladol Yr Wcrain – yna mae'n ddigon da i ni !"

Gall hyn arbed costau cynnal a chadw o hyd at £60,000 yn flynyddol ac wrth gwrs byddai safon wyneb y maes newydd yn annog pêl-droed o safon uwch na'r presennol. Yn hytrach na thalu canolfannau eraill i ymarfer yno – byddai'r cynllun hwn yn creu incwm a diddordeb yn y clwb. Byddai'r clwb a'r gymuned ar eu hennill –gyda'r clwb yn tyfu i fod yn ganolbwynt cymunedol cynaladwy.

Gadewch i mi gynnig cwpl o enghreifftiau penodol i chi.

Mae *Twrci* – sydd eisoes ậ chynllun 3G sylweddol, newydd gyhoeddi buddsoddiad ar gyfer 350 o gaeau newydd.

*Sweden* – Mae tref Umea 70 milltir i'r gogledd o Stockholm, sydd ậ phoblogaeth o 100,000 – gyda buddsoddiad llywodraethol – wedi gosod 20 cae 3G yn y 10 mlynedd ddiwethaf er mwyn cryfhau'r cysylltiad rhwng y clwb a'r gymuned, cynyddu'r niferoedd sy'n chwarae'r gamp er mwyn gwella iechyd y genedl a hefyd godi ymwybyddiaeth y boblogaeth o bwysigrwydd bod yn ddinesydd da - sy'n atal torcyfraith. Mae'r torfeydd sy'n gwylio prif dîm y clwb wedi cynyddu ers i'r dref a'r llywodraeth fabwysiadu'r cynllun hwn.

*Yr Alban* – Mae clwb Annan Athleic o Drydedd Adran yr Alban newydd dderbyn £592,000 ar gyfer cae 3G. Mae'r buddsoddiad hwn yn cynnwys arian ậ adfeddianwyd gan droseddwyr drwy gynllun Cashback from Communities y llywodraeth.

*Gogledd Iwerddon* – Poblogaeth 1.5 miliwn ac mae'r llywodraeth yno newydd gyhoeddi buddsoddiad o £36,000,000 i wella stadiymau eu huwch gynghrair. Mae ganddynt hefyd gynllun 3G/4G uchelgeisiol a phell gyrhaeddol.

Mae 121 o gaeau synthetig yng Ngogledd Iwerddon ar hyn o bryd ac o fewn y pum mlynedd nesaf bwriad y llywodraeth yw gosod 207 arall. Ar gyfartaledd mae'r meysydd hyn yn cael eu defnyddio 90% o'r amser.

## *Enghraifft Clwb Crusaders*

***(Mae'r Crusaders ynghŷd ậ Cliftonville yn chwarae ar feysydd 3G/4G yn Uwch Gynghrair Gogledd Iwerddon)***

Talodd y llywodraeth am ddiweddaru'r stadiwm ac am osod maes 4G. Bu'n rhaid i'r clwb godi 15% o gost gosod y cae. Y clwb sy'n gyfrifol am weinyddu'r defnydd o'r maes ac fel rhan o'r fargen am dderbyn cyfraniad sylweddol y llywodraeth – mae'n rheidrwydd arnyn nhw i adael i ysgolion lleol ddefnyddio'r cae'n wythnosol am ddim.

Mae'r clwb yn fodlon iawn gyda'r trefniant hwn gan ei fod yn cryfhau'r cysylltiad rhwng y clwb a'r gymuned a bod costau cynnal a chadw'r cae yn îs na chae gwair.

Mae'r clwb yn arbed £12,000 yn flynyddol ar gostau llogi meysydd ymarfer yn unig ers gosod eu cae 4G.

Mae holl dimau'r Crusaders yn ymarfer ac yn chwarae ar y maes a llogir y cae i'r cyhoedd ar yr adegau rhydd eraill - sydd yn creu incwm i'r clwb. Bydd yn galluogi'r Crusaders i ail-osod maes newydd - heb gyfraniad llywodraethol pan ddaw cyfnod y cae presennol i ben.

Felly mae gosod y cae wedi wedi gosod y Crusaders yn amlycach yng nghalon y gymuned, wedi arbed costau cynnal a chadw i'r clwb, creu incwm iddyn nhw a'u gwneud yn fwy cynaladwy.

## Sylwadau i gloi

Yn syml felly os oes un neges glir i ddod o'm tystiolaeth heddiw, hoffwn i'r pwyllgor hwn, ar ran y Cynulliad, ystyried dilyn patrwm gwledydd eraill a mabwysiadu cynllun fyddai'n cynorthwyo'r broses o osod clybiau UGC wrth galon eu cymunedau.

Byddai un buddsoddiad yn gallu gweddnewid pêl-droed yn ein cymunedau a chynorthwyo clybiau ein Uwch Gynghrair Genedlaethol i dyfu'n fwy cynaladwy ac i gynyddu niferoedd sy'n chwarae a gwylio gêm fwyaf poblogaidd ein gwlad.

Diolch am eich hamser / Thank you very much for your time.

# MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL
# BIL CYLLID LLYWODRAETH LEOL

## Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol

1. “Yn unol â Rheol Sefydlog 29.6 cynigir bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau’r Bil Cyllid Llywodraeth Leol i’r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru”.

## Cefndir

2. Mae'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ym mharagraff 1 uchod wedi'i gyflwyno gan Carl Sargeant AC, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, o dan Reol Sefydlog 29.6 o Reolau Sefydlog (RhS) Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad Cenedlaethol). Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn gerbron o dan RhS29.2(iii). Mae RhS29 yn rhagnodi bod rhaid cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol a rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol os bydd Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â Chymru, neu os cyflwynir gwelliant iddo, at bwrpas sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

3. Cyflwynwyd y Bil Cyllid Llywodraeth Leol (the Bill) i’r Senedd ar 19 Rhagfyr 2011. Gellir gweld y Bil yn:

http://services.parliament.uk/bills/2012-13/localgovernmentfinance.html

## Crynodeb o'r Bil a'i amcanion polisi

4. Noddir y Bil gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol. Nod Llywodraeth y DU yw y bydd y Bil yn lleihau’r diffyg drwy gyflenwi twf economaidd a datganoli’r rheolaeth ar gyllid.

5. Bydd y Bil yn cyflwyno cynllun cadw ardrethi, a fydd yn galluogi awdurdodau lleol yn Lloegr i ddal gafael ar gyfran o’r ardrethi busnes a gynhyrchir yn eu hardal. Bydd hyn yn rhoi i’r awdurdodau lleol gymhelliad ariannol cryf i hyrwyddo twf economaidd yn eu hardal.

6. Bydd y Bil hefyd yn darparu fframwaith ar gyfer lleoleiddio cymorth ar gyfer y dreth gyngor yn Lloegr; a bydd hynny, ochr yn ochr â mesurau treth gyngor eraill, yn rhoi mwy o ymreolaeth ariannol i’r cynghorau, a mwy o fuddiant yn nyfodol economaidd eu hardal leol, tra’n parhau i ddarparu cymorth ar gyfer y dreth gyngor i’r aelodau mwyaf hyglwyf o’r cymdeithas.

## Darpariaethau y mae’n ofynnol cael cydsyniad y Cynulliad Cenedlaethol ar eu cyfer ac amcanion polisi

7. Er pan gyflwynwyd y Bil yn Rhagfyr 2011, mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno nifer o ddarpariaethau pellach ar ffurf gwelliannau’r Llywodraeth.

8. Cyflwynwyd nifer o welliannau gan Lywodraeth y DU ar 17 Mai 2012, a hynny ar gais Llywodraeth Cymru. Roedd y gwelliannau hyn yn cynnig y dylid rhoi pwerau gweithredol i Weinidogion Cymru i wneud yn ofynnol bod awdurdodau penodedig yng Nghymru yn cyflwyno cynlluniau gostwng treth gyngor lleoledig yng Nghymru, ac i ragnodi paramedrau y dylai cynlluniau o'r fath weithredu oddi mewn iddynt.

9. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'r darpariaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff 8 yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol fel y'i pennir ym mhwnc 12 (cyllid llywodraeth leol) o Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

10. Mae'r gwelliannau a gyflwynwyd ar 17 Mai hefyd yn darparu pwerau gweithredol i Weinidogion Cymru i gyflwyno rheoliadau sy'n darparu ar gyfer pwerau i ymchwilio ac erlyn mewn achosion o dwyll a gwallau gordalu ynglŷn â threth gyngor.

11. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'r darpariaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff 10 hefyd yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol fel y'i pennir ym mhwnc 12 (cyllid llywodraeth leol) o Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

12. Mae gwelliannau technegol a gyflwynwyd ar 14 Mai, sy'n diweddaru croesgyfeirio anghyfoes yn adran 141 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, yn cywiro amryfusedd blaenorol yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 2003.

13. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'r darpariaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff 12 hefyd yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol fel y'i pennir ym mhwnc 12 (cyllid llywodraeth leol) o Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

14. Mae cymalau 7 a12 o'r Bil, sy'n diwygio Atodlen 9 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ac Atodlen 2 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud yn ofynnol bod awdurdodau'n cyhoeddi gwybodaeth ragnodedig ynglŷn â'r dreth gyngor ac ardrethi annomestig mewn ffordd ragnodedig.

15. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'r darpariaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff 14 yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol fel y'i pennir ym mhwnc 12 (llywodraeth leol) o Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

16. Gellir gweld y gwelliannau a gyflwynwyd ar wefan y Senedd yn: http://services.parliament.uk/bills/2012-13/localgovernmentfinance.html

17. Bydd y gwelliannau i gymalau gwreiddiol y Bil, a'r cymalau newydd:

**a) Yn galluogi cyflwyno cynllun i ddarparu cymorth ar gyfer y Dreth Gyngor yng Nghymru**

Bydd y pwerau gweithredol a ddarperir i Weinidogion Cymru yn y Bil yn eu galluogi i wneud rheoliadau a fydd yn gwneud yn ofynnol bod awdurdod penodedig yng Nghymru yn gwneud cynllun gostwng treth gyngor. Yn unol â'r pŵer hwn i wneud rheoliadau, bydd modd i Weinidogion osod gofynion ynglŷn â'r materion sydd i'w cynnwys mewn cynlluniau o'r fath.

Mae'r materion y caiff Gweinidogion Cymru ragnodi ar eu cyfer  yn lled debyg i'r materion y bydd yn ofynnol i awdurdodau bilio yn Lloegr eu cynnwys yn eu cynlluniau o dan ddarpariaethau'r Bil.

Caiff y rheoliadau y caniateir i Weinidogion Cymru eu gwneud:

- Gwneud yn ofynnol bod person neu gorff a bennir yn y rheoliadau ('awdurdodau penodedig') yn cyflwyno cynllun gostwng treth gyngor sy'n pennu'r gostyngiadau a fydd yn gymwys yn y symiau taladwy o'r dreth gyngor, yn ogystal â'r anheddau a'r personau y bydd y cynllun yn gymwys iddynt;

- Gosod gofynion ar y person neu gorff sy'n gwneud y cynllun, o ran materion penodol y bydd rhaid eu cynnwys yn y cynllun; a

- Gwneud darpariaethau eraill mewn perthynas â chynlluniau gostwng treth gyngor.

Mae'r darpariaethau manwl, y ceir eu cynnwys yn y rheoliadau y caniateir eu cyflwyno, yn cynnwys y canlynol:

- Cymhwyso'r cynlluniau:
  - rhaid i'r rheoliadau ragnodi pa anheddau y bydd y cynllun yn gymwys iddynt; a
  - rhagnodi erbyn pa ddyddiad y bydd rhaid gwneud cynllun, a'r flwyddyn ariannol gyntaf y bydd rhaid i'r cynllun fod mewn grym.

- Personau sydd â hawl i ostyngiadau:
  - caiff y rheoliadau ragnodi pa ddosbarthiadau o bersonau fydd â hawl i ostyngiad o dan y cynllun, a/neu ganiatáu i'r awdurdodau penodedig benderfynu pa ddosbarthiadau o bersonau fydd â hawl i ostyngiad o dan y cynllun.

- Gostyngiadau:
  - caiff y rheoliadau ragnodi gostyngiadau, gan gynnwys uchafsymiau ac isafsymiau'r gostyngiadau y bydd hawl gan bersonau ym mhob dosbarth i'w cael; ac
  - o dan y rheoliadau, ceir naill ai ganiatáu i'r awdurdodau penodedig benderfynu gostyngiadau o'r fath, neu ddarparu na chaiff yr awdurdodau penodedig wneud hynny.

- Materion eraill: Caiff y rheoliadau:
  - ragnodi ynglŷn â'r weithdrefn sydd i'w dilyn gan berson sy'n gwneud cais am ostyngiad;
  - rhagnodi ynglŷn â'r weithdrefn sydd i'w dilyn gan berson sy'n apelio yn erbyn penderfyniadau sy'n effeithio ar ei hawl i ostyngiad o dan gynllun;

    - rhagnodi ynglŷn â'r weithdrefn y mae'n rhaid i awdurdod penodedig ei dilyn wrth wneud cynllun;
    - naill ai gwneud yn ofynnol bod swyddogaethau a roddir gan yr rheoliadau yn cael eu harfer ar y cyd gan awdurdodau penodedig, neu ganiatáu iddynt eu harfer ar y cyd;
    - darparu ar gyfer cynllun rhagosodedig, a fydd yn dod i rym os na fydd awdurdod penodedig yn gwneud cynllun yn unol â'r rheoliadau;
    - gosod gofynion ar awdurdodau penodedig ynglŷn ag adolygu, diwygio neu amnewid cynlluniau;
    - darparu ar gyfer codi tâl rhesymol am gyflenwi copïau o ddogfennau sy'n ymwneud â chynlluniau;
    - gwneud yn ofynnol bod yr awdurdodau penodedig yn darparu gwybodaeth am gynlluniau i Weinidogion Cymru.

- Darpariaeth drosiannol:
    - Caiff y rheoliadau gynnwys darpariaethau trosiannol ynglŷn â chychwyn y cynlluniau, gan gynnwys  trin person sydd, neu a oedd, yn cael budd-dal treth gyngor fel pe bai wedi gwneud cais am ostyngiad o dan y cynllun.

- Canllawiau:
    - Caiff y rheoliadau ddarparu pŵer i Weinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau ynglŷn â gweithredu'r cynlluniau yng Nghymru.

**b) Pŵer i ymchwilio ac i erlyn mewn achosion o dwyll**

Bydd y pwerau gweithredol hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau a fydd yn cyflwyno pwerau i ymchwilio ac erlyn mewn achosion o dwyll a gwallau gordalu, sef pwerau cyffelyb i'r rhai y gellir eu defnyddio ar hyn o bryd mewn achosion o dwyll ynglŷn â budd-dal treth gyngor.

Câi rheoliadau a wneid gan ddefnyddio'r pwerau hyn:

- wneud yn ofynnol darparu gwybodaeth;

- creu troseddau y byddai person yn eu cyflawni mewn amgylchiadau penodedig, gan gynnwys:
    - drwy wrthod neu fethu â darparu unrhyw wybodaeth neu ddogfen, pe gofynnid iddo wneud hynny mewn cysylltiad ag atebolrwydd person i dalu treth gyngor;
    - drwy wneud datganiad neu sylw ffug mewn cysylltiad ag atebolrwydd person i dalu treth gyngor;
    - drwy ddarparu, neu beri neu ganiatáu darparu, mewn cysylltiad ag atebolrwydd o'r fath, dogfen neu wybodaeth ffug;
    - drwy beidio â hysbysu, neu beri  neu ganiatáu i berson beidio â hysbysu, ynghylch mater sy'n berthnasol i atebolrwydd o'r fath.

- gwneud darpariaeth ar gyfer gosod cosb, gan awdurdod bilio, ar berson mewn amgylchiadau rhagnodedig.

**c) Gwelliannau technegol i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988**

Mae'r rhain yn diwygio cyfeiriadau yn adran 141 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, gan gywiro amryfusedd a ddigwyddodd pan wnaed newidiadau blaenorol yn y Ddeddf honno, gan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 2003.

Roedd Deddf 2003 yn cyflwyno diwygiadau i Ddeddf 1998, a oedd yn caniatáu i'r setliadau heddlu a setliadau awdurdodau unedol gael eu paratoi ar wahân yng Nghymru. Dylid bod wedi gwneud diwygiadau canlyniadol yr un pryd i ddarpariaethau a oedd, drwy reoliadau, yn rhoi pŵer i'r awdurdodau lleol wrthgyfrif taliadau o'r derbyniadau ardrethi annomestig (AA) ac ad-daliadau o'r Grant Cynnal Refeniw (GCR) yn erbyn y taliadau iddynt hwy o GCR ac AA a ailddosberthir.

Mae'r gwelliannau hyn yn cywiro'r amryfusedd hwnnw, a byddant yn sicrhau y caiff Gweinidogion Cymru barhau i wneud rheoliadau a fydd yn caniatáu gwneud taliadau setliad refeniw i'r awdurdodau lleol yn y ffordd fwyaf effeithlon a synhwyrol.

**d) Cyhoeddi gwybodaeth ragnodedig ynglŷn â'r dreth gyngor ac AA gan awdurdodau lleol**

Mae cymalau 7 a12 o'r Bil yn diwygio Atodlen 9 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ac Atodlen 2 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, yn eu trefn. Mae'r diwygiadau hyn yn caniatáu gwneud rheoliadau a fydd yn gwneud yn ofynnol bod awdurdodau lleol yn cyhoeddi gwybodaeth ragnodedig, ynglŷn ag AA a'r dreth gyngor, mewn ffordd ragnodedig, er enghraifft ar wefannau'r awdurdodau.

**Manteision defnyddio'r Bil hwn**

18. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan Senedd y DU, gan ei fod yn cynrychioli'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf priodol a chymesur i alluogi cymhwyso'r darpariaethau hyn i Gymru mor fuan ag y bo modd. Bydd y darpariaethau hyn caniatáu i Weinidogion Cymru gyflwyno deddfwriaeth briodol yn unol â blaenoriaethau ac ystyriaethau Cymru, cyn diddymu'r Budd-dal Treth Gyngor ym Mawrth 2013.

**Goblygiadau ariannol**

19. Bydd goblygiadau ariannol unrhyw ymgynghoriad, deddfwriaeth neu ganllawiau dilynol, a fydd yn codi o unrhyw benderfyniad yn y dyfodol i arfer y pwerau i wneud rheoliadau o dan y darpariaethau perthnasol, yn destun ystyriaeth lawn o'u fforddiadwyedd yn ogystal ag Arfarniad Effaith Rheoliadol, a fyddai'n cynnwys dadansoddiad o'r gost a'r budd.

**Carl Sargeant**
**Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau Cymru**
**Mai 2012**

**Jane Hutt AC / AM**
**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Ty**
**Minister for Finance and Leader of the House**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref:

Rosemary Butler AM
Chair
Business Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

29 May 2012

Dear Rosemary,

**Business Committee: LCM Local Government Finance Bill**

At Business Committee this morning I agreed to circulate a note with further advice on the LCM relating to Council Tax Benefit arising from the Local Government Finance Bill.

In respect of the short timescale, while it has been clear to officials for several months, following the abolition of Council Tax Benefit in the Welfare Reform Act, that Wales will need its own arrangements regarding a new scheme to provide support for Council Tax, it was not immediately clear that the UK Government would agree that the Local Government Finance Bill could be the vehicle for plugging the gap in relation to support for Council Tax in Wales. That agreement was secured and the amendments laid on 17th May. The Minister for Local Government and Communities referred to this and the need for a LCM in his statement to the Assembly on 22nd May.

The amendments to the Local Government Finance Bill will enable Welsh Ministers, by regulations, to establish the requirement for Council Tax reduction schemes to be introduced in Wales. Business Committee will be reassured that these regulations will be subject to the affirmative procedure in the Assembly and therefore will be subject to full Assembly scrutiny.

As for our LCM approach compared with the Scottish model, we hope that procedural changes can be agreed in the future, which will give us greater flexibility to use memoranda to provide information to Business Committee at an earlier stage, while

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Jane.Hutt@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

respecting our duty of confidentiality relating to detailed negotiations between the Welsh and UK Governments. Our response to recommendation 7 of the Constitutional Affairs and Legislation Committee's report on Powers Granted to Welsh Ministers in UK Laws sets out the changes we believe could be made to Standing Order 29 to achieve this flexibility.

Best wishes

Jane

**Jane Hutt AC / AM**
Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Ty
Minister for Finance and Leader of the House

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Carl Sargeant AC / AM
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau
Minister for Local Government and Communities

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref CS/06054/12

Ann Jones AM
Chair of Communities, Equality and
Local Government Committee
Ty Hywel
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

committeebusiness@Wales.gsi.gov.uk

Dear Ann,

16th May 2012

Thank you for your letter of 24 April regarding local authority provision of public toilet facilities. I am of course aware of the Health and Social Care Committee's report and of your Committee's interest in this issue.

You asked me for an update on several aspects of public toilet provision by local authorities, which I address in turn below. The law as it stands does not require local authorities to provide public toilets; nor does it give Ministers powers to direct them in this regard, or to issue any form of statutory guidance. The following responses to your questions should be seen within that context.

- Does the Welsh Government have any involvement in strategic level decisions relating to public toilet provision?

  Like many other local services this is entirely a matter for each local authority to determine in accordance with local needs, priorities and resources. That said, we are working with local authorities to facilitate greater public access to toilets through the Public Facilities Grant Scheme (see below).

- Does the Welsh Government issue guidelines to local authorities on provision of public toilet facilities, including levels of provision?

  The Welsh Government has not issued such guidelines.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Carl.Sargeant@wales.gsi.gov.uk



*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

- Does the Welsh Government monitor or have a role in reviewing the levels of provision, to ensure they are appropriate?

  No, this is a matter for individual local authorities. However, we do monitor take up under the Public Facilities Grant Scheme very closely.

- What mechanisms are available to ensure that local authorities provide an appropriate level of access to public toilet facilities?

  Local authorities are not currently under any statutory duty to provide public toilets. They are, however, best placed to assess the needs of their communities working in collaboration with other community planning partners (such as community and town councils) and businesses to ensure that appropriate provision is made.

The Welsh Government is conscious of the impact that inadequate toilet provision can have on the elderly and disabled people in particular. With this in mind, we introduced the Public Facilities Grant Scheme in April 2009. The Scheme was initially for a 3 year period, but we have extended the scheme for a further year from April 2012. It reimburses participating local authorities (to a maximum of £17,500 per authority per year) for payments of up to £500 to local businesses for allowing free public access to their toilet facilities. Since the Scheme's inception, £295,522 has been reimbursed to local authorities, who have until 31 January 2013 to submit claims for 2012-13. The toilet facilities provided must have acceptable standards of safety, hygiene, accessibility for disabled people and provision for both sexes.

There are currently 286 businesses in Wales participating in this scheme. We continue to encourage take up of this funding and hope to see further expansion of the scheme during this financial year.

**Carl Sargeant AC / AM**
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau
Minister for Local Government and Communities

- Has the requirement for domestic and UEFA licences contributed in any way to improving the infrastructure of WPL clubs, and if so, how?/ A yw'r gofyniad i gael trwydded ddomestig a thrwydded UEFA wedi cyfrannu mewn unrhyw ffordd at wella seilwaith clybiau Uwch Gynghrair Cymru ac os felly, sut?

  Yes it has improved the infrastructure of all clubs, as now the ground and facilities have to be up to an acceptable standard to be able to join or continue in the WPL, however, it is an area that needs improving as it seems that this needs to be consistent to all clubs, even if they are established in the WPL. The domestic licence is harder to achieve than the UEFA licence as clubs can nominate other grounds to play their UEFA matches on; these grounds should be WPL grounds that are made available to other WPL clubs at minimal cost; as in the past clubs in the competitions have had to pay substantial sums to non-WPL clubs to use their grounds. The domestic licence in my opinion should cover financial turnover and profit and loss, as has been proved this season with 1 club, a club running by the financial influence of 1 person, is not healthy for the league, clubs should therefore be able to demonstrate their ability to not run at a loss, based on merchandise, sponsorship and attendances; which would mean that player's would not be able to dictate the money they are currently demanding for playing.

- Do you have any views on the FAW Strategic Plan, published in January 2012, and the way in which it relates to the WPL?/ A oes gennych farn ynghylch Cynllun Strategol Cymdeithas Bêl-droed Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2012, a sut y mae'n berthnasol i Uwch Gynghrair Cymru?

  The strategic plan is good for the game in Wales as it shows involvement from grass root level up to the National Team, the success of the plan can only be measured in years to come with the success of the National Team and Domestic Teams in European Competition. I am of the opinion that in order for the Plan to work that the FAW needs to be stream lined, as to have 37 councillors; most of whom have no interest in the WPL or in Grass Roots Football will hinder rather than help the plan become meaningful.

- You say that the Welsh Government should 'do its bit in supporting our Premier League'. What would be the most effective form of support it could provide and what would you wish to see the Government doing in this respect?/ Yr ydych yn dweud y dylai Llywodraeth Cymru wneud ei rhan drwy gefnogi ein Huwch Gynghrair. Beth fyddai'r gefnogaeth fwyaf effeithiol y gallai ei chynnig a beth yr hoffech weld y Llywodraeth yn ei wneud yn hyn o beth?

  The Welsh Government should be supporting the WPL by assisting clubs to fund ground improvement projects, this will allow clubs to be the

focus point of the community, leading to access to football facilities for Disabled and Women's teams. The innovation in 3G facilities as an addition to the grass pitches, which should not be replaced as the main pitch in the WPL, would be a great investment by the Welsh Government; this would mean that every club in the WPL would have access to their own 3G facility, even if it is not on the actual grounds of the club, it could be built within the town/city of the club and would be up to the club to run and manage the facility. In addition to this as the day to day running and administration of the clubs is ever increasing; the Welsh Government could assist by assisting the FAW with innovative ideas on how clubs would be able to fund administrative roles.

- Can you expand on your comments that the Welsh Government should support Wales's independent position within FIFA? What specific actions should it be taking in this regard and what role does the WPL have to play in safeguarding this status?/ A allwch ymhelaethu ar eich sylwadau y dylai Llywodraeth Cymru gefnogi safle annibynnol Cymru yn FIFA? Pa gamau penodol y dylai fod yn eu cymryd yn hyn o beth a beth yw swyddogaeth Uwch Gynghrair Cymru o ran diogelu'r statws hwn?

    Wales is an independent country and the Welsh Government should be proud of this independence, especially now that Wales has it's own government. Unfortunately due to the fact that the Welsh Premier League only has 1 full time club, the league has very little chance of providing player's into the National Team; therefore, it has a very small role to play in safeguarding this status.

- What are your views on the work the FAW and WPL is undertaking with respect to tackling racism and homophobia in football and in reaching out to more diverse footballing communities (such as women, BME people and LGB people)?/ Beth yw eich barn am y gwaith y mae Cymdeithas Bêl-droed Cymru ac Uwch Gynghrair Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â hiliaeth a homoffobia yn y byd pêl-droed ac i gyrraedd cymunedau pêl-droed mwy amrywiol (megis menywod, pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl lesbiaid, hoyw a deurywiol)?

    The Welsh Football Trust and certain employees of the FAW are doing some great work in tackling the above issues; yet as mentioned previously; the 37 councillors show little interest in any of the above. All clubs in the WPL run a two week initiative on 'Show Racism the Red Card' along with an annual event in the community; yet this is run by 'The Show Racism the Red Card'; again this is supported by the FAW employees, yet no councillors or FAW staff attend any of the matches or event to support the clubs. The FAW councillors once elected should be mandated that

part of their responsibility is to support all forms of events that are encouraged by the FAW and WPL.